

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth
Gyffordd 45 (Ynysforgan),
Abertawe) (Gwahardd Cerbydau
Dros Dro) 2018

The M4 Motorway (Slip Roads at
Junction 45 (Ynysforgan),
Swansea) (Temporary Prohibition
of Vehicles) Order 2018

Gwnaed 3 Medi 2018

Made 3 September 2018

Yn dod i rym 8 Medi 2018

Coming into force 8 September 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 Motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited because of works proposed on or near the motorway.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 8 Medi 2018.

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Slip Roads at Junction 45 (Ynysforgan), Swansea) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 8 September 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used for the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

"the motorway" ("*y draffordd*") means the M4 London to South Wales Motorway;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 8 Medi 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua’r dwyrain a thua’r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan), Abertawe.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

3 Medi 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 8 September 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads of the motorway at Junction 45 (Ynysforgan), Swansea.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

3 September 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (FFYRDD YMUNO AC YMADAEL WRTH GYFFORDD 45 (YNYSFORGAN), ABERTAWE) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar ffyrdd ymuno ac ymadael traffordd yr M4, neu gerllaw iddynt, wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan), Abertawe.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 45.

Y llwybr arall pan fydd y ffyrdd ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin ar gau fydd parhau i'r gyffordd nesaf, ymadael a dychwelyd ar gerbyttffordd gyferbyn yr M4 er mwyn gadael wrth Gyffordd 45.

Y llwybr arall pan fydd y ffordd ymuno tua'r gorllewin ar gau fydd mynd ar hyd yr A4067 tua'r de i Gylchfan Bro Abertawe a thua'r dwyrain ar Ffordd Bro Abertawe i ymuno â'r M4 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 44 (Lôn-las).

Y llwybr arall pan fydd y ffordd ymuno tua'r dwyrain ar gau fydd mynd ar yr A4067 tua'r gogledd i Gylchfan y Glais, y B4291 tua'r de i Heol Las, tua'r de-orllewin ar Heol Las a thua'r de-ddwyrain ar Gwernllwynchwyth Road i ailymuno â'r M4 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 44.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 8 Medi 2018 ac y byddant yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 30 Medi 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Ni fydd amserau cau'r ffyrdd ymuno ac ymadael yn gwrthdaro â'i gilydd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau statudol lleol/Gorchymynion traffig dros dro/2018).

THE M4 MOTORWAY (SLIP ROADS AT JUNCTION 45 (YNYSFORGAN), SWANSEA) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the slip roads of the M4 motorway at Junction 45 (Ynysforgan), Swansea.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 45.

The alternative route for eastbound/westbound exit slip road closures will be to continue to the next junction, exit and return on the opposite carriageway of the M4 to leave at Junction 45.

The alternative route when the westbound entry slip road is closed is via the southbound A4067 to Swansea Vale Roundabout, eastbound Swansea Vale Road to join the westbound M4 at Junction 44 (Lon Las).

The alternative route during the closure of the eastbound entry slip road is via the northbound A4067 to Glais Roundabout, southbound B4291 to Heol Las Road, south-westbound Heol Las Road and south-eastbound Gwernllwynchwyth Road to join the eastbound M4 at Junction 44.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force on 8 September 2018 and operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) until 30 September 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The slip road closures will not conflict with each other.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Transport
Welsh Government